

HERITAGE NEWS

NEWYDDION TREFTADAETH

BLAENAVON WORLD HERITAGE SITE NEWSLETTER ISSUE 21 WINTER 2015
CYLCHLYTHYR SAFLE TREFTADAETH Y BYD BLAENAFON RHIFYN 21 GAEIF 2015

Experience the Magic of Christmas in Blaenavon

Mynnwch flas ar Hud y Nadolig ym Mlaenafon

Blaenavon Heritage Town is getting ready for Christmas with the annual Blaenavon Winter Wonderland on Saturday 5 December, 11am-4pm, a real treat for all the family. With a traditional Victorian fun fair and covered Christmas Market selling quality gifts. Enjoy festive food and Christmas carols while you explore this special Heritage Town.

Santa and his elves will be making a return visit with his real reindeer. Experience the magic of Christmas by visiting Santa in his grotto. With children's Christmas cookery activities and craft workshops at Bethlehem Court find something for all the family! Don't miss the Disney Frozen Princesses Elsa and Anna.

Enjoy Christmas musical performances from Blaenavon Town Band and Blaenavon Heritage VC Primary Choir. Visit some of the independent and unique shops, start your Christmas shopping in Blaenavon!

For more information about the Winter Wonderland or Blaenavon Heritage Town please visit www.blaenavonlife.com or 01495 742333.

Mae Tref Treftadaeth Blaenafon yn paratoi ar gyfer y Nadolig gyda Gŵyl Aef flynyddol Blaenafon ar ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr, 11am-4pm, gwledd go iawn i'r teulu oll. Gyda ffair draddodiadol o Gyfnod Victoria a Marchnad Nadolig dan do yn gwerthu anrhegion o ansawdd. Mwynhewch fwyd yr ŵyl a charolau Nadolig wrth i chi grwydro'r dref dreftadaeth arbennig.

Bydd Siôn Corn a'i gorachod yn dychwelyd unwaith eto gyda'i geirw go iawn. Profwch hud y Nadolig drwy alw heibio i weld Siôn Corn yn ei grotto. Gyda gweithgareddau coginio Nadoligaidd i'r plant a gweithdai crefft ym Methlehem Court bydd rhywbeth at ddant y teulu cyfan! Peidiwch â methu'r Tywysogesau Elsa ac Anna o ffilm Frozen, Disney.

Mwynhewch berfformiadau cerddorol Nadoligaidd gan Fand Tref Blaenafon a Chôr Ysgol Gynradd Treftadaeth Blaenafon. Beth am ymweld â rhai o'r siopau annibynnol ac unigryw, a dechrau ar eich siopa Nadolig yma ym Mlaenafon!

I gael mwy o wybodaeth am Ŵyl y Gaeaf neu Tref Treftadaeth Blaenafon ewch i www.blaenavonlife.com neu 01495 742333.



**Ironmaster's
Descendant
Visits Blaenavon**

**Un o
Ddisgynyddion
yr Haearn Feistri
yn Galw Heibio
Blaenafon**

Page/Tudalen 2

**Blaenavon
Digital Cinema
Installation**

**Sinema Ddigidol
Newydd
Blaenafon**

Page/Tudalen 6

Coming Events

**Digwyddiadau
sydd i ddod**

Page/Tudalen 12



visitblaenavon.co.uk


www.fb.com/visitblaenavon

Ironmaster's Descendant Visits Blaenavon

In September, David Risk Kennard, a descendant of three generations of Blaenavon Ironmasters, visited the World Heritage Site and met with the volunteers of the Blaenavon Community Museum to discover more about his family's association with the area.

Members of the Kennard family, headed by Robert William Kennard (1800-1870), were influential and well-respected figures in the economic, social and cultural life of Blaenavon from the 1830s to the 1920s. Continuing his family's support for the town, David Kennard has kindly offered to loan artefacts belonging to his forebears, which will be displayed at the museum when it reopens at the Workmen's Hall early next year.

Speaking about his visit, Mr Kennard said: "I was given a wonderful warm welcome, and was very thrilled to be shown the buildings and monuments that are such a proud testament to the extraordinary history of the town, and which are now cared for and loved by the present generation. The histories of so many families, including my own, are intimately linked to Blaenavon, and all of their endeavours contributed in no small way to the world's history. I am full of admiration for the imagination and resilience still so very evident in all that I saw and heard during my visit."



Un o Ddisgynyddion yr Haearn Feistri yn Galw Heibio Blaenafon

Ym mis Medi, fe wnaeth David Risk Kennard, un o ddisgynyddion tair cenhedlaeth o Haearn Feistri Blaenafon, ymweld â Safle Treftadaeth y Byd a chyfarfod â gwirfoddolwyr Amgueddfa Gymunedol Blaenafon i ddarganfod mwy am gysylltiad ei deulu â'r ardal.

Roedd aelodau o deulu Kennard, dan arweiniad Robert William Kennard (1800-1870), yn unigolion dylanwadol ac uchel eu parch ym mywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Blaenafon o'r 1830au i'r 1920au. Gan barhau â'r gefnogaeth a ddangoswyd gan ei deulu tuag at y dref, mae David Kennard wedi cynnig i fenthycu arteffactau benthyciad oedd yn eiddo i'w hynafiaid, a byddant yn cael eu harddangos yn yr amgueddfa pan fydd yn ailagor yn Neuadd y Gweithwyr yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Wrth siarad am ei ymweliad, dywedodd Mr Kennard: "Cefais groeso cynnes hyfryd, ac roeddwn wrth fy modd i weld yr adeiladau a'r henebion oedd yn destun cymaint o falchder i hanes rhyfeddol y dref, a gweld eu bod bellach yn derbyn gofal a pharch gan y genhedlaeth bresennol. Mae hanes cymaint o deuluoedd, gan gynnwys fy nheulu i, â chyswllt agos â Blaenafon, ac mae pob un o'u hymdrechion yn cyfrannu'n helaeth i hanes y byd. Yr wyf yn llawn edmygedd o'r dychymyg a'r gwydnwch sydd yn parhau i fod mor amlwg iawn ym mhopeth a welais ac a glywais yn ystod fy ymweliad."

Blaenavon Town Team


Tîm Tref Blaenafon

Blaenavon Town Team has been involved in a range of activities over the last few months. Since the summer, monthly flea markets have been held in Bethlehem Court. The successful markets are organised by Stacey Grout from 'Flowers by Stacey' and are held monthly, don't miss the next one on Saturday 5 December as part of Winter Wonderland. A big thank you to Stacey, the stall numbers continue to grow and footfall increases in town supporting local businesses.

A new project the Town Team is promoting is a garden sharing scheme led by Nick Watts. He is leading a group trying to match up those who have gardens but are unable to work on them with those who would like a garden but don't have one! Nick and the team are working closely with Bron Afon to deliver this project.

Following on from a previous project we are launching a partnership project with St Peter's Church and Bethlehem Chapel to look at ways of maintaining the burial grounds. In addition we are investigating ways of mapping the burials with the aim of producing a digital record therefore helping those investigating their family history. The memorials in the graveyard are also of great historical importance and link the town with the social history of the area. The project is still at a very early stage but lots of interest and support.

Blaenavon Town Team is always looking for new members all welcome! Town Team meetings are held on the first Monday of the month at Bethlehem Chapel Schoolroom 6.30pm.



Tîm Tref Blaenafon wedi bod yn chwarae rhan mewn amrywiol weithgredau yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Ers yr haf, cynhaliwyd marchnadoedd rhad yn Bethlehem Court. Trefnir y marchnadoedd llwyddiannus gan Stacey Grout o Flowers by Stacey, ac fe'u cynhelir bob mis - bydd y nesaf ar ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr fel rhan o Wledd y Gaeaf. Diolch i Stacey, mae nifer y stondinau yn parhau i gynyddu ac mae mwy o bobl yn y dref, yn cefnogi busnesau.

Yn y prosiect newydd sy'n cael ei hybu gan Dîm y Dref yw cynllun rhannu gerddi a arweinir gan Nick Watts. Mae'n arwain grŵp sy'n ceisio cyfateb pobl sydd â gerddi ond yn methu gweithio arnynt gyda phobl a hoffai gael gardd ond nid oes ganddynt un! Mae Nick a'r tîm yn gweithio'n agos â Bron Afon i gyflawni'r prosiect hwn.

Yn dilyn ymlaen o brosiect blaenorol, rydym yn lansio prosiect partneriaeth gydag Eglwys Sant Pedr a Chapel Bethlehem i ystyried dulliau o gynnal a chadw'r tiroedd claddu. At hyn, rydym yn ystyried dulliau o fapio'r claddigaethau gyda'r nod o gynhyrchu cofnod digidol a thrwy hynny helpu'r sawl sy'n ymchwilio i'w hanes teuluol. Mae'r cerrig beddau yn y fynwent hefyd o bwysigrwydd hanesyddol mawr ac yn cysylltu'r dref â hanes cymdeithasol yr ardal. Mae'r prosiect yn y cyfnod cynnar iawn o hyd ond mae llawer o ddiddordeb a chefnogaeth.

Mae Tîm Tref Blaenafon bob amser yn chwilio am aelodau newydd! Cynhelir cyfarfodydd y Tîm ar ddydd Llun cyntaf y mis yn Ystafell Ysgol Capel Bethlehem am 6.30pm.



Exciting Times for Blaenavon's Community Museum

There are exciting times ahead for the Blaenavon Community Museum as it prepares to reopen at its new home within Blaenavon Workmen's Hall. Now based in the most prominent building in the World Heritage Site, the museum will be well-placed to tell the fascinating story of Blaenavon and its people to the thousands of tourists who visit the town each year.

The 'new' museum will showcase Blaenavon's rich community heritage through a variety of locally themed exhibitions. The displays will include artefacts relating to Blaenavon's many clubs & community organisations, churches & chapels, shops & businesses, friendly & fraternal societies, ironmasters, trade unionism, and local people who served in the two World Wars.

The museum aims to develop educational and tourism opportunities in collaboration with the World Heritage Centre, Blaenavon Library, the Workmen's Hall and others. The volunteers will also continue to research the history of Blaenavon and run a genealogy service. Free family history workshops are now being held by the volunteers at Blaenavon World Heritage Centre and Library every Thursday, 10am-1pm.

It is anticipated that the museum will reopen in early 2016. For more information, email blaenavonmuseum@outlook.com or visit www.facebook.com/blaenavonmuseum



Amser Cyffrous i amgueddfa Gymunedol Blaenafon

Mae amser cyffrous ar y gorwel i Amgueddfa Gymunedol Blaenafon wrth iddi baratoi i ailagor yn ei chartref newydd yn Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. Yn ei chartref, yn yr adeilad mwyaf amlwg ar Safle Treftadaeth y Byd, bydd yr Amgueddfa mewn lleoliad da i adrodd hanes diddorol Blaenafon a'i phobl i'r miloedd o dwristiaid sy'n ymweld â'r dref bob blwyddyn.

Bydd yr amgueddfa 'newydd' yn arddangos treftadaeth gymunedol gyfoethog Blaenafon drwy amrywiaeth o arddangosfeydd yn seiliedig ar themâu lleol. Bydd yr arddangosiadau yn cynnwys arteffactau sy'n ymwneud â nifer o glybiau a mudiadau cymunedol, eglwysi, capeli, siopau a busnesau, cymdeithasau cyfeillgar a brawdol, haearn feistri, undebaeth lafur ym Mlaenafon yn ogystal â phobl leol a wasanaethodd yn y ddau Ryfel Byd.

Mae'r amgueddfa yn anelu i ddatblygu cyfleoedd addysgol a thwristiaeth mewn cydweithrediad â Chanolfan Treftadaeth y Byd, Llyfrgell Blaenafon, Neuadd y Gweithwyr ac eraill. Bydd y gwirfoddolwyr hefyd yn parhau i ymchwilio i hanes Blaenafon a rhedeg gwasanaeth hel achau. Mae gweithdai hanes teulu am ddim bellach yn cael eu cynnal gan y gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r Llyfrgell bob dydd Iau, o 10 am-1pm.

Rhagwelir y bydd yr amgueddfa yn ailagor ar ddechrau 2016. I gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch blaenavonmuseum@outlook.com neu ewch i www.facebook.com/blaenavonmuseum



New Activity Space and Children's Play Area Opens at Big Pit National Coal Museum



Big Pit recently launched its new Playlab activity space which will be used primarily for sessions with early years' groups, community groups, and for school holiday events. A new Mini Miner's Trail activity booklet for families has also launched.

Pictured are Children from Busy Bees in Blaenavon who cut the ribbon to open the Playlab, and enjoyed testing out the new soft play area. The launch was attended by representatives from Torfaen Language and Play and Bookstart, who helped develop the Mini Miner's Trail. There was also an appearance from Big Pit's Butty Bear!

Sharon Ford Learning, Participation and Interpretation Manager at Big Pit said "The PlayLab is a fantastic space which will be open for special family learning events, and we hope community groups will come and adopt the space too. Plus it's also a great place for children's birthday parties!"



Gofod Gweithgareddau ac Ardal Chwarae Newydd yn Agor ym Mhwll Mawr, Amgueddfa Lofaol Cymru

Lansiodd Pwll Mawr ofod gweithgareddau newydd y Pwll Chwarae, fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer sesiynau gyda phlant ifanc, grwpiau cymunedol a digwyddiadau gwyliau ysgol. Lansiwyd hefyd llyfryn gweithgareddau Taith y Glowyr Bach.

Torrwyd y rhuban gan blant o Busy Bees, Blaenafon, gafodd hwyl yn profi'r ardal chwarae newydd. Roedd aelodau o Chwarae ac Iaith Torfaen a Dechrau Da - fu'n helpu i ddatblygu Taith y Glowyr Bach - yn bresennol yn y lansiad hefyd, a chafwyd ymweliad gan Byti, arth Big Pit!

Dywedodd Sharon Ford, Rheolwr Addysg, Cyfranogiad a Dehongli yn Mhwll Mawr: "Mae'r Pwll Chwarae yn ofod gwych ar gyfer digwyddiadau addysg i deuluoedd, ac rydym yn gobeithio y bydd grwpiau o'r gymuned yn dod i'w ddefnyddio. Mae hefyd yn lle gwych ar gyfer partïon pen-blwydd!"



Big Pit Needs You!

We're looking for people of all ages who would like to be involved in things that matter to them at Big Pit.

We're hoping to set up forums to help us at Big Pit to plan and deliver various projects and opportunities to improve the experience of the museum.

So, whether you're a teenager, a parent, a grandparent, a great-grandparent, retired, an ex-miner/coal industry worker, or just have an interest in our industrial heritage, we'd love to hear from you!

For more information, call 029 2057 3666 or e-mail kathryn.jenkins@museumwales.ac.uk



Rydym Angen Chi!

Rydym yn chwilio am bobl o bob oed a hoffai fod yn rhan o bethau sy'n bwysig iddynt hwy yn Mhwll Mawr.

Rydym yn gobeithio sefydlu fforymau i helpu ni yn Mhwll Mawr i gynllunio a chyflwyno gwahanol brosiectau a chyfleoedd i wella profiad yr amgueddfa.

Felly, os ydych chi yn ei ardegau, yn rhiant, nain neu daid, wedi ymddeol, yn gyn-weithiwr y diwydiant glo cyn neu â diddordeb yn ein treftadaeth ddiwydiannol, byddem wrth ein bodd i glywed gennych!

Rhowch alwad ar 029 2057 3666 neu e-bostiwch kathryn.jenkins@museumwales.ac.uk



Blaenavon Digital Cinema Installation

Almost £100,000 of public sector funding has been secured (from Arts Council of Wales and Welsh Government Town Centre Partnership Funding) to bring the previously outdated 85 seater cinema back into use. Funds have been used to improve the cinema environment (including lighting, air handling, seating, disability access, and décor) as well as purchase and install a state of the art digital cinema projector with surround sound and hearing enhancement. The cinema will be used to help re-engage local people with Blaenavon Workmen's Hall and enhance community engagement in a variety of social programmes. A weekly programme of films will be screened showing current big screen releases as well as some of the old greats and in the future, live streamed national theatre productions. The cinema will be relaunched this December – date to be announced shortly!

Sinema Ddigidol Newydd Blaenafon

Mae bron i £100,000 o arian y sector cyhoeddus wedi cael ei glustnodi (gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Cyllid Partneriaeth Canol Tref) i ddod â'r hen sinema 85 sedd yn ôl i ddefnydd. Mae cronfeydd eisioes wedi eu defnyddio i wella awyrgylch yn y sinema (gan gynnwys y goleuadau, trin aer, seddi, mynediad i'r anabl, ac addurno) yn ogystal â phrynu a gosod taflunydd sinema ddigidol celf mwyaf diweddar gyda sain amgylchynol a gwella clyw. Bydd y sinema yn cael ei ddefnyddio i helpu ailgydio'r perthynas rhwng y pobl leol a Neuadd y Gweithwyr yn Flaenafon a gwella ymgysylltu â'r gymuned mewn amrywiaeth o raglenni cymdeithasol. Bydd rhaglen wythnosol o ffilmiau yn cael eu arddangos yn cynnwys ffilmiau y sgrin fawr mwyaf diweddar yn ogystal â rhai o'r hen ffilmiau cyfarwydd ac yn y dyfodol, cynrychiadau theatr genedlaethol yn cael eu darlledu'n fyw dros y we. Bydd y sinema yn cael ei hail-lansio'n mis Rhagfyr hon - dyddiad i'w gyhoeddi cyn bo hir!



Youth Summit Success!



The UNESCO World Heritage Youth Summit, held in Blaenavon in October, was an amazing success with more than 100 young people attending from across the UK.

Groups from World Heritage Sites such as Saltaire and the Jurassic Coast, as well as others from around Wales and the UK took part in the summit, visiting sites such as Big Pit and the Ironworks, Canal and Railway to learn not only the pivotal role Blaenavon played in the industrial revolution, but how World Heritage Site Status helped improve the Blaenavon Community.

Young people also held debates about the importance of World Heritage, and examined how heritage and the lessons learned from the Summit can be used to improve their own communities. The young people also enjoyed a wonderful Summit dinner and disco that was enjoyed by all.

The Summit also welcomed a special guest, 23 year old Youth Peace Ambassador Rimesh Khanal from Nepal. Mr Khanal spoke to the Summit about the devastating earth quakes in Nepal earlier this year, where thousands of people died and seven World Heritage Sites were either damaged or destroyed.

The Summit was enjoyed by all and demonstrated how a partnership approach across Blaenavon made World Heritage accessible to teenagers!

Councillor Bob Wellington CBE said: "I must thank everyone who worked incredibly hard to make this event such a success. It was wonderful to see so many young people exploring Blaenavon and discovering how this little town once helped to build the modern world."



Uwchgynhadledd Ieuenctid Hynod Lwyddiannus!

Roedd Uwchgynhadledd Ieuenctid Treftadaeth y Byd UNESCO, a gynhaliwyd ym Mlaenafon ym mis Hydref, yn llwyddiant aruthrol, a denwyd dros 100 o bobl ifanc o bob cwr o'r DU.

Fe wnaeth grwpiau o Safleoedd Treftadaeth y Byd fel Saltaire a'r Arfordir Jwrasig, yn ogystal ag eraill o bob cwr o Gymru a'r DU gymryd rhan yn yr uwchgynhadledd, gan ymweld â safleoedd fel Pwll Mawr a'r Gwaith Haearn, y Gamlas a'r Rheilffordd i ddysgu, nid yn unig am y rôl ganolog oedd gan Flaenafon yn y chwyldro diwydiannol, ond sut mae Statws Safle Treftadaeth y Byd wedi helpu i wella Cymuned Blaenafon

Aeth y bobl ifanc hefyd ati i gynnal trafodaethau am bwysigrwydd Treftadaeth y Byd, ac archwilio sut y gellir defnyddio treftadaeth, a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr Uwchgynhadledd, i wella eu cymunedau eu hunain. Cafodd y bobl ifanc hefyd y cyfle i fwynhau cinio Uwchgynhadledd gwych a disgo a ddaeth â mwynhad i bawb.

Fe wnaeth yr Uwchgynhadledd hefyd goesawu gwestai arbennig, Rimesh Khanal, 23 oed, Llysgennad Ieuenctid dros Heddwch o Nepal. Anerchodd Mr Khanal yr uwchgynhadledd am y daeargrynfeydd dinistriol yn Nepal yn gynharach eleni, lle gollodd miloedd o bobl eu bywydau a chafodd 7 o Safleoedd Treftadaeth y Byd naill ai eu difrodi neu eu dinistrio.

Fe wnaeth pawb fwynhau'r Uwchgynhadledd a dangoswyd sut oedd gweithio mewn partneriaeth ar draws Blaenafon wedi galluogi plant yn eu harddegau ar draws y byd i gyrchu Treftadaeth Byd!

Meddai'r Cynghorydd Bob Wellington CBE: "Rhaid i mi ddiolch i bawb a weithiodd yn ddyfal iawn i sicrhau llwyddiant y digwyddiad hwn. Roedd yn wych gweld cymaint o bobl ifanc yn crwydro Blaenafon a darganfod sut y gwnaeth y fath dref fechan ar un adeg, helpu i adeiladu'r byd modern."



Christmas Craft Workshops Gweithdai Crefftau'r Nadolig



In preparation for Christmas we will be holding craft workshops for adults to make origami wreaths and beautiful Christmas decorations. The sessions are on Saturday 21st and 28th November and 5th December, 11am - 3pm. The price is £3 per session and booking is essential as spaces are limited. For more information on what workshops will be running on each day please contact Blaenavon World Heritage Centre & Library on 01495 742333 or visit www.visitblanavon.co.uk

Make it Christmas at Blaenavon World Heritage Centre

The Blaenavon World Heritage Centre and Library will be having a 'Make it Christmas' event as part of Blaenavon Winter Wonderland. On Saturday 5th December from 11 - 4pm there will be a variety of family friendly 'Make 'n' Take' workshops for everyone to have a go at making something festive for Christmas. Willow Lane will be hosting their craft fair so it's the perfect opportunity to complete your Christmas shopping and pick up unique handmade gifts. The grounds of the centre will be alive with the sounds of Blaenavon Concert band playing festive tunes and the café will be serving its festive menu.

I baratoi ar gyfer y Nadolig, byddwn yn cynnal gweithdai crefftau i oedolion i wneud torchau origami ac addurniadau hardd y Nadolig. Cynhelir y sesiynau ar ddydd Sadwrn 21ain a 28ain Tachwedd a'r 5ed Rhagfyr, 11am - 3pm. Y pris yw £3 y sesiwn ac mae'n hanfodol trefnu ymlaen llaw gan fod yn rhaid cyfyngu ar y niferoedd. I gael mwy o wybodaeth ar ba weithdy a gynhelir ar ba ddiwrnod, cysylltwch â Chanolfan a Llyfrgell Treftadaeth y Byd Blaenafon ar 01495 742333 neu ewch i www.visitblanavon.co.uk

Ei Gwneud Hi'n Nadolig yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon

Bydd Canolfan a Llyfrgell Treftadaeth y Byd Blaenafon yn cael digwyddiad 'Ei Gwneud Hi'n Nadolig' fel rhan o Wledd y Nadolig Blaenafon. Ar ddydd Sadwrn 5ed Rhagfyr o 11am - 4pm bydd amrywiaeth o weithdai 'Gwneud a Mynd' i'r teulu, er mwyn i bawb gael cynnig ar wneud rhywbeth ar gyfer y Nadolig. Bydd Willow Lane yn cynnal eu ffair grefftau felly mae'n gyfle delfrydol i gwblhau eich siopa Nadolig a chael rhoddion unigryw. Bydd tiroedd y ganolfan yn llawn o synau band Cyngerdd Blaenafon yn chwarae caneuon yr ŵyl, a bydd y caffi yn cynnig ei fwydlen Nadolig.

Have you Visited Blaenavon Library in its New Home in the Blaenavon World Heritage Centre yet?

With extended opening hours of 10am-5pm, Tuesday to Saturday, and self-service access to quick choice and local history books on Sundays, it's never been easier to take advantage of everything the library has to offer!

Customers have commented on the light and welcoming layout and friendly staff, and children love the bright and colourful children's library. Teenagers even have their own room and computers!

There is something for everyone, whether you want somewhere to read the newspapers or just pop in to surf the net. Contact the library on 01495 742333 for details of regular events including story and rhyme times for children, book groups, computer taster sessions for beginners and help with your family tree.

Libraries are free to join and you'll find a great selection of books to borrow and computers to use - all for free! Why not check it out and treat yourself to a coffee in the café after choosing your books?

You can also enjoy learning about your community's heritage, and access other council services at the customer care centre during your visit.

Ydych chi wedi ymweld â Llyfrgell Blaenafon yn ei chartref newydd yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd eto?

Gydag oriau agor estynedig o 10am-5pm o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn, a mynediad hunanwasanaeth i ddewis cyflym a llyfrau hanes lleol ar ddydd Sul, nid yw erioed wedi bod yn haws i fanteisio ar bopeth sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig!

Mae cwsmeriaid wedi gwneud sylwadau ar y cynllu-wel golau a chroesawgar a'r staff cyfeillgar, ac mae'r plant wrth eu bodd â'r llyfrgell lachar a lliwgar i blant. Mae hyd yn oed gan bobl yn eu harddegau eu hystafell a'u cyfrifiaduron eu hunain! Mae rhywbeth i bawb, p'un a ydych am rywle i ddarllen y papurau newydd neu dim ond galw heibio i syrffio'r we. Cysylltwch â'r llyfrgell ar 01495 742333 i gael manylion am ddiwyddiadau rheolaidd yn cynnwys sesiynau stori a rhigwm i blant, grwpiau llyfrau, sesiynau blasu cyfrifiaduron i ddechreuwy'r help gyda'ch coeden deulu.

Gallwch ymuno â llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim a chewch hyd i ddetholiad gwych o lyfrau i'w benthyg a chyfrifiaduron i'w defnyddio - y cyfan oll am ddim! Beth am roi cynnig arni a thretio'ch hun i goffi yn y caffi ar ôl dewis eich llyfrau?

Gallwch hefyd fwynhau dysgu am dreftadaeth eich cymuned, a chael mynediad i wasanaethau eraill y cyngor yn y ganolfan gofal cwsmeriaid yn ystod eich ymweliad.



New Light Shined on Blaenavon Ironworks

Blaenavon Ironworks was illuminated on Thursday October 1 in a tribute to the many men and women who lived and worked at the site.

The project carried out by The Society of Light and Lighting and the Chartered Institution of Building Services Engineers, and saw the central water balance tower lit up and surrounded by lights displaying the names of the workers who contributed to south Wales becoming one of the most important iron producing regions in the world.

It forms part of a Night of Heritage Light, where World Heritage Sites across the UK were illuminated to highlight the important part light and light-based technologies play in the modern world.


Ken Skates, Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism added: "It was fantastic to see these ironworks, which are one of the best preserved 18th and 19th century ironworks in Europe, participating in this national celebration of World Heritage Sites.

"It is important we remember our history and its significance, visitors and residents from the local community were encouraged to go out to see and appreciate the impressive site at this iconic historic monument."

Councillor Bob Wellington CBE, leader of Torfaen council, said: "This was a fantastic sight to see, which served as a tribute to the many men and women who played such an important but often forgotten part in Wales' industrial heritage."

Other World Heritage Sites taking part included Edinburgh Old and New Towns, Fountains Abbey, Liverpool Maritime, Ironbridge Gorge, Blenheim Palace, Jurassic Coast and Giant's Causeway.

The event took place during the UNESCO International Year of Light, which has seen activities take place in more than 100 countries across the globe.



Gwaith Haearn Blaenafon mewn goleuni newydd

Roedd Gwaith Haearn Blaenafon wedi'i oleuo dydd Iau, 1 Hydref mewn teyrnged i'r dynion a menywod lu fu'n byw ac yn gweithio ar y safle.

Cynhaliwyd y prosiect dan arweiniad y Gymdeithas Goleuni a Goleuo a Sefydliad Siartredig Peirianwyr y Gwasanaethau Adeiladau, a gwelwyd y twr cydbwysu dŵr canolog yn cael ei oleuo a'i amgylchynu gan oleuadau'n arddangos enwau'r gweithwyr a gyfrannodd at dde Cymru'n dod yn un o'r rhanbarthau cynhyrchu haearn mwyaf pwysig yn y byd.

Mae'n ffurfio rhan o Noson o Olau Treftadaeth, lle cafodd Safleoedd Treftadaeth y Byd ar draws y DU eu goleuo i dynnu sylw at y rhan bwysig y chwaraeodd golau a thechnolegau yn seiliedig ar olau yn y byd modern.

Dywedodd Ken Skates, y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: "Mae'n wych gweld y gwaith haearn hwn, sydd yn un o'r gweithfeydd haearn gorau ei gyflwr yn Ewrop, sy'n deillio o'r 18fed a'r 19eg ganrif, yn cymryd rhan yn natliadau cenedlaethol Safleoedd Treftadaeth y Byd.

"Mae'n bwysig ein bod yn cofio ein hanes a'i arwyddocâd. Cafodd ymwelwyr a thrigolion y gymuned leol eu hannog i fynd allan i weld a gwerthfawrogi'r safle trawiadol ar heneb hanesyddol eiconig hwn."

Dywedodd y Cynghorydd Bob Wellington CBE, arweinydd Cyngor Torfaen: "Roedd hon yn olygfa wych, ac yn deyrnged go iawn i'r dynion a menywod lu, yr anghofir amdanynt yn aml, fu'n chwarae rhan mor bwysig yn nhreftadaeth ddiwydiannol Cymru."

Y Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill a gymerodd rhan oedd Trefi Hen a Newydd Caeredin, Ffynhonnau Abaty, Ardal Forwrol Lerpwl, Ceunant Ironbridge, Palas Blenheim, Arfordir Jwrasig a Sarn y Cawr.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn ystod Blwyddyn Goleuni Genedlaethol UNESCO a gwelwyd digwyddiadau yn cael eu cynnal mewn dros 100 o wledydd ar draws y byd.

Railway News

The railway rounds off a successful year with its very popular Santa Steam Specials which run every weekend in December. With presents for the children, sherry and mince pies for adults and a chance to meet Santa, these fill up pretty quickly! To make sure you don't miss out call 01495 792263, email: santa@pbrly.co.uk or book online via the railway website – www.pontypool-and-blaenavon.co.uk The railway then closes until 2016 when it will reopen in April, with the popular Easter Bunny Trains running at Easter.

The railway is always looking for new volunteers, so if you fancy helping out why not pop along on a weekend and see what you can do.

Newyddion y Rheilffordd

Daw blwyddyn lwyddiannus arall i ben ar y rheilffordd gyda'i digwyddiad arbennig poblogaidd sy'n cynnig cyfleoedd i fynd ar daith mewn trên stêm i weld Siôn Corn, a hynny yn ystod pob penwythnos ym mis Rhagfyr. Gydag anrhegion i'r plant, sieri a mins peis i'r oedolion a chyfle i gwrdd â Siôn Corn, mae'r lleoedd yn llenwi'n eithaf cyflym! I wneud yn siŵr nad ydych yn colli allan ffoniwch 01495 792263, e-bostiwch: santa@pbrly.co.uk neu archebwch ar-lein ar wefan y rheilffordd - www.pontypool-and-blaenavon.co.uk. Bydd y rheilffordd yn cau tan 2016, pan fydd yn ailagor ym mis Ebrill, gyda threnau poblogaidd 'Cwningod Pasg' yn rhedeg dros gyfnod y Pasg.

Mae'r rheilffordd bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd, felly os hoffech helpu allan, beth am alw heibio ar benwythnos i weld beth fedrwyd chi ei wneud.



Coming Events / Digwyddiadau sydd i ddod

Christmas Craft Workshops

21 & 28 November 2015
In preparation for Christmas the Blaenavon World Heritage Centre & Library will be holding Christmas craft workshops for adults to make origami wreaths and beautiful Christmas decorations. The price is £3 per session, booking is essential as spaces limited, 11am-3pm, Tel: 01495 742333 or www.visitblaenavon.co.uk

Blessing of the Crib

30 November 2015
Carol Service, readings, prayers and Christmas lights switch on, Bethlehem Court, 7pm.

Friends of the Green

7 December 2015
Come along and join in singing Christmas carols around the tree, Charles Street, Blaenavon, 6pm.

Blaenavon Male Voice Choir Annual Concert

5 December 2015
Come and join Blaenavon Male Voice Choir for their Annual Concert at Blaenavon Workmen's Hall, 7pm, Tel: 01873 830912.

Santa Steam Specials

5/6, 12/13 & 19/20 December 2015
Presents for children, mince pies and sherry for adults, a short ride to see Santa at the Whistle Inn! Booking recommended to avoid disappointment. Tel: 01495 792262 or santa@pbrly.co.uk

Make it Christmas at Blaenavon World Heritage Centre

5 December 2015
A 'Make it Christmas' event as part of Blaenavon Winter Wonderland. There will be a variety of family friendly 'Make 'n' Take' workshops for everyone to have a go at making something festive for Christmas. Willow Lane will be hosting their craft fair, live music from Blaenavon Concert band and the café will be serving a festive menu, 11am-4pm, Tel: 01495 742333.

Blaenavon Winter Wonderland

5 December 2015
Blaenavon Heritage Town, 11am-4pm, Tel: 01495 742333 or www.blaenavonlife.com

Big Pit Babies Christmas Event

12 December 2015
Has Rudolph been a good reindeer this year? Come along and find out more. Sessions 11.30am-12.30pm & 1.30pm-2.30pm. Suitable for 0-5 years, limited spaces, so booking is essential, £5 per child. Tel: 029 2057 3650 or www.museumwales.ac.uk

Santa is coming to the Ironworks

12 & 13 December 2015
Santa at the Ironworks £5 per child, includes a present, limited spaces, booking essential, 11am - 4pm. Tel: 01495 792615.

It's Christmas... Father Christmas at Big Pit

19 December 2015
Come along and meet Father Christmas and let him know what's on your Christmas list, £5 per child, includes gift suitable for all children, 12pm-4pm. Tel: 029 2057 3650 or www.museumwales.ac.uk

St Peter's Church

20 December 2015
Nine lessons and Carols, 6pm.

Horeb Baptist Chapel

24 December 2015
Candlelight Service, 6pm.

St Peter's Church

24 December 2015
Family Crib Service, 6pm.

St Peter's Church

25 December 2015
Christmas Eucharist with Carols, 10am.

Horeb Baptist Chapel

25 December 2015
Family worship and communion, 10am.

Gweithdai Crefft y Nadolig

21 a 28 Tachwedd 2015
Wrth baratoi ar gyfer y Nadolig bydd Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r Llyfrgell yn cynnal gweithdai crefft Nadolig i oedolion, i'w galluogi i wneud torchau origami ac addurniadau Nadolig hardd. Y prif yw £3 y sesiwn, bydd angen bwcio am fod lleoedd yn gyfyngedig, 11am-3pm, Ffôn: 01495 742333 neu www.visitblaenavon.co.uk

Bendithio'r Preseb

30 Tachwedd 2015
Gwasanaeth Carolau, darlleniadau, gweddiâu a goleuo'r goleuadau Nadolig, Bethlehem Court, 7pm.

Cyfeillion y Grŵn

7 Rhagfyr 2015
Dewch yn lluo i ymuno yn y carolau Nadolig o amgylch y goeden, Charles Street, Blaenafon, 6pm.

Cyngerdd Blynyddol Côr Meibion Blaenafon

5 Rhagfyr 2015
Dewch i ymuno â Chôr Meibion Blaenafon yn eu Cyngerdd Blynyddol yn Neuadd y Gweithwyr Blaenafon, 7pm, Ffôn: 01873 830912.

Taith ar Drên Stêm i weld Siôn Corn

5/6, 12/13 a 19/20 Rhagfyr 2015
Anrhegion i'r plant, mins peis a sieri i'r oedolion, taith fach i weld Siôn Corn yn y Whistle Inn! Bydd angen bwcio er mwyn osgoi siom. Ffôn: 01495 792262 neu santa@pbrly.co.uk

Crëwch y Nadolig yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon

5 Rhagfyr 2015
Digwyddiad 'Creu'r Nadolig' yn rhan o Wyl Gaef Blaenafon. Bydd amrywiaeth o weithdai 'Creu a Chadw' sy'n addas i'r teulu oll. Bydd cyfle i bawb droi eu llaw at greu rhywbeth arbennig ar gyfer y Nadolig. Bydd Willow Lane yn cynnal eu ffair grefftau, cerddoriaeth fyw gan fand cyngerdd Blaenafon a bydd y caffi yn gweini ei fwydlen Nadoligaidd, 11am-4pm, Ffôn: 01495 742333.

Gŵyl Aeaf Blaenafon

5 Rhagfyr 2015
Tref Treftadaeth Blaenafon, 11am-4pm, Ffôn: 01495 742333 neu www.blaenavonlife.com

Digwyddiad Nadolig Babanod Pwll Mawr

12 Rhagfyr 2015
Ydy Rudolph wedi bod yn garw da eleni? Dewch i gael darganfod mwy. Sesiynau am 11.30am-12.30pm ac 1.30pm-2.30pm. Addas i blant 0-5 oed, lleoedd yn brin felly rhaid bwcio ymlaen llaw, £5 y plentyn. Ffôn 029 2057 3650 neu www.museumwales.ac.uk

Mae Siôn Corn yn dod i'r Gwaith Haearn

12 a 13 Rhagfyr 2015
Siôn Corn yn y Gwaith Haearn, £5 y plentyn, yn cynnwys anrheg, lleoedd yn gyfyngedig, rhaid bwcio, 11am - 4pm. Ffôn: 01495 792615.

Mae'n Nadolig... Siôn Corn ym Mhwll Mawr

19 Rhagfyr 2015
Dewch i gwrdd â Siôn Corn a dweud wrtho beth sydd ar eich rhestr Nadolig! £5 y plentyn, i gynnwys anrheg, addas i bob plentyn, 12pm-4pm, Ffôn: 029 2057 3650 neu www.museumwales.ac.uk

Eglwys San Pedr

20 Rhagfyr 2015
Naw darlleniad a Charolau, 6pm.

Capel Bedyddwyr Horeb

24 Rhagfyr 2015
Gwasanaeth yng Ngolau Canhwylau, 6pm.

Eglwys San Pedr

24 Rhagfyr 2015
Gwasanaeth Preseb i'r Teulu, 6pm.

Eglwys San Pedr

25 Rhagfyr 2015
Cymundeb y Nadolig gyda Charolau, 10am.

Capel Bedyddwyr Horeb

25 Rhagfyr 2015
Addoli a chymundeb i'r teulu, 10am.

